# Y Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu: Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2022-2023

1 Gorffennaf 2023

# Crynodeb Gweithredol

## Ein Gweledigaeth: Yn falch o arwain y ffordd tuag at ddyfodol gwell i Gymru drwy reoli’r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae’r system cynllunio defnydd tir yn fecanwaith cyflawni strategol a’i nod yw cyflawni gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rheoli’r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae CNC yn ymgynghorai arbenigol neu statudol yn y broses rheoli datblygiadau. Mae hyn yn golygu y dylai ymgeiswyr, ac awdurdodau sy’n penderfynu ar geisiadau cynllunio, ymgynghori â ni ar gynlluniau arfaethedig, sy’n bodloni un neu fwy o’r meini prawf ar gyfer lle rydym ni wedi’n nodi fel ymgynghorai arbenigol neu statudol. Pan ymgynghorir â ni, mae'n ofynnol i ni ddarparu ymateb o sylwedd o fewn yr amserlenni penodedig. Fel ymgynghorai arbenigol, mae hefyd yn ofynnol i ni ddarparu Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru, sy’n nodi ein perfformiad blynyddol mewn perthynas â darparu ymateb o sylwedd o fewn terfynau amser statudol neu y cytunwyd arnynt.

Yn y cyfnod 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023, cawsom 8297 o ymgynghoriadau cynllunio a chyflwynasom gyfanswm o 8193 o ymatebion o sylwedd**.** Cyflwynwyd 99% (8074) o'r rhain o fewn terfynau amser penodedig.

Mae'r perfformiad hwn yn ymwneud â datblygiadau a ddosbarthwyd yn fân ddatblygiadau, datblygiadau mawr a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Nid yw’r adroddiad hwn yn ymdrin yn fanwl â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (PSAC) a bennir gan lywodraeth y DU. Er y bu gostyngiad bach mewn ceisiadau mawr a mân geisiadau o gymharu â 2021-2022, mae’n bwysig nodi y bu cynnydd yn nifer a chymhlethdod ymgynghoriadau DAC a PSAC yn 2022-2023. Mae’r cynnydd hwn yn cynnwys datblygiadau ynni newydd ac ar raddfa fawr, sy’n cynyddu mewn ymateb i dargedau datgarboneiddio’r llywodraeth.

Mae’r ffaith fod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) yn methu â chyrraedd targedau ansawdd dŵr o ran ffosfforws yn parhau i gael effaith sylweddol ar ddatblygwyr ac Awdurdodau Lleol, a Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu CNC. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd da o 2022-2023. Mae CNC yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ar draws gwahanol sectorau i ddatblygu dulliau ac atebion newydd. Ym mis Gorffennaf 2022, gwnaethom ddiweddaru ein cyngor i Awdurdodau Cynllunio Lleol i’w helpu i benderfynu ar gais cynllunio lle mae cynnig datblygu’n debygol o effeithio ar ACAau afonydd sy’n sensitif o ran ffosfforws.

O ran cynllunio strategol, rydym wedi cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint i baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol, wedi darparu ymateb manwl i Nodyn Cyngor Technegol diwygiedig 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (TAN15), ac wedi parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi cynllunio. Fe wnaethom hefyd barhau i ddatblygu ein corff o ganllawiau ar gyfer datblygwyr ac awdurdodau cynllunio i gefnogi rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol drwy'r broses gynllunio, megis ein canllawiau ar y we ar y math o wybodaeth y dylai ymgeisydd ei chyflwyno i gefnogi cynigion ar gyfer datblygiadau amaethyddol.

Mae'r cynnydd mewn ceisiadau cymhleth mawr a'r angen i ddefnyddio adnoddau sylweddol mewn materion strategol megis TAN15 a ffosffadau mewn ACAau afonydd wedi arwain at bwysau cynyddol parhaus ar ein Gwasanaeth. Fe wnaethom gofnodi’r agweddau ar y galw cynyddol hwn sy’n ymwneud ag ynni mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth a gyflwynwyd yn 2022 i Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, hyd yma nid yw hyn wedi arwain at unrhyw gyllid ychwanegol ac mae angen i’n Gwasanaeth flaenoriaethu ymdrech yn gynyddol o ganlyniad.

Mae recriwtio i lenwi swyddi gweigion wedi bod yn heriol felly mae ein Gwasanaeth yn aml yn rhedeg gyda lefelau uchel o swyddi gweigion a throsiant. Er bod cyfradd ymateb o 99% wedi'i gyflawni drwy reoli gwasanaethau'n ofalus, gallai’r pwysau cynyddol a grynhoir uchod olygu penderfyniadau anodd wrth symud ymlaen o ran blaenoriaethu gwaith, yn ogystal â graddfa a'r math o Wasanaeth a gynigir, oni bai y bydd adnoddau pellach ar gael.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy dderbyn caniatâd ymlaen
llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru